# Rheolwr Cyfathrebu

**DISGRIFIAD O'R SWYDD**

| | |
|---|---|
| Cyflogir gan: | Panel Cynghori Is-Sahara (SSAP) |
| Yn gyfrifol i: | Pennaeth Hub Cymru Africa |
| Cyflog: | £37,280 - £39,152 y flwyddyn |
| Telerau cyflogaeth: | Contract cyfnod penodol – tan 31 Mawrth 2027 ar hyn o bryd yn amodol ar gyllid (gyda'r posibilrwydd o estyniad yn dibynnu ar gyllid yn y dyfodol) |
| Lleoliad: | Cymru. Swyddfa neu trefniadau gweithio hybrid neu o bell, ond bydd disgwyl i ddeiliad y swydd fynychu Swyddfeydd SSAP yng nghanol Caerdydd yn ôl yr angen. |
| Oriau: | Amser llawn (37.5 awr yr wythnos). Gallai diwrnodiau gweithio hyblyg neu ran-amser gael eu hystyried. |
| Gwyliau blynyddol: | 28 diwrnod a gwyliau cyhoeddus |
| Teithio: | Bydd yn rhaid i'r ymgeisydd llwyddiannus deithio ar hyd a lled Cymru o bryd i'w gilydd, ac aros dros nos |
| Pensiwn: | Bydd deiliad y swydd yn cael ei gofrestru'n awtomatig yn NEST, cynllun pensiwn SSAP. Mae SSAP yn gweithredu cynllun pensiwn ble mae'r cyflogai a'r cyflogwr yn gwneud cyfraniadau. Byddwch chi'n talu 5% o'ch enillion yn ystod pob cyfnod tâl, a byddwn ninnau hefyd yn talu 5% o'ch enillion yn ystod pob cyfnod tâl. Felly, y cyfraniad cyfan i'ch pot pensiwn fydd 10%. |

# Hub Cymru Africa

Mae Hub Cymru Africa yn cynrychioli'r sector undod byd-eang yng Nghymru, ac yn cefnogi gwaith ymgyrchu'r sector a phrosiectau partneriaeth rhwng Cymru ac Affrica i hyrwyddo Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.

Ein gweledigaeth yw creu Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ac sy'n gweithredu mewn undod gyda phobl Affrica. Ein cenhadaeth yw sbarduno newid a chyfrannu at ganlyniadau datblygu byd-eang drwy gefnogi cymuned Cymru/Affrica.

Sefydlwyd partneriaeth Hub Cymru Africa (HCA) yn 2015, fel cydweithrediad rhwng partneriaid Cyrff Anllywodraethol. Mae'n derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno elfennau allweddol o Raglen Cymru ac Affrica. Ar hyn o bryd, mae'r bartneriaeth yn cynnwys Cymru Global, Cymru Masnach Deg, Panel Cynghori Is-Sahara (partner arweiniol) a Phartneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru. Mae pob aelod partner yn endidau cyfreithiol drwy eu hawl eu hunain

# Panel Cynghori Is-Sahara(SSAP)

Sefydlwyd Panel Cynghori Is-Sahara yn 2009, pan y gwnaeth nifer o grwpiau diaspora Affricanaidd yng Nghymru gyfarfod i ystyried sut y gallent hyrwyddo eu diddordeb cyffredin mewn materion lleol sy'n effeithio ar gymunedau Affricanaidd yng Nghymru gyda'i gilydd, yn ogystal â'r rheiny yn Affrica. Mae SSAP yn defnyddio'r profiad bywyd a'r sgiliau, y gallu a'r wybodaeth a geir ymhlith cymunedau diaspora Cymru - Affrica. Rydym eisiau cyflwyno ein profiadau bywyd i'r sector elusennau, yn ogystal ag eiriol dros y grwpiau diaspora ym maes datblygu rhyngwladol. Rydym yn gwneud hyn trwy weithredu mentrau datblygu yng Nghymru ac ar draws Affrica Is-Sahara.

Os hoffech ragor o wybodaeth, ewch i https://www.ssap.org.uk/

Mae SSAP yn lletya Hub Cymru Africa.

# Crynodeb o'r rôl

Rydym yn chwilio am weithiwr cyfathrebu creadigol proffesiynol. Bydd y Rheolwr Cyfathrebu yn arwain ac yn darparu cyfathrebu dwyieithog llawn ar gyfer Hub Cymru Africa, ac yn ymgysylltu'n effeithiol â'r cyhoedd, y cyfryngau ac mewn materion polisi. Byddant yn addasu'r cyfathrebu ar gyfer gwahanol sectorau a chynulleidfaoedd, yn unol â strategaeth HCA a gofynion cyllidwyr.

Bydd y Rheolwr Cyfathrebu yn sicrhau bod gan Bartneriaeth HCA strategaeth gyfathrebu gyffredin sydd yn cael ei deall a'i dilyn gan bob aelod o staff, sy'n helpu i gadw'r cyfathrebu yn gyson ar draws y sianeli cyfryngau gwahanol. Byddant yn cryfhau ein presenoldeb yn y maes darlledu a'r cyfryngau cymdeithasol, yn cynrychioli'r bartneriaeth i'r cyfryngau ac mewn digwyddiadau, ac yn chwarae rhan allweddol mewn hyrwyddo cyfraniad Cymru yn y meysydd undod byd-eang a datblygu rhyngwladol. Byddant hefyd yn gyfrifol am reoli'r cyfathrebu dydd i ddydd, gan gynnwys y cyfryngau cymdeithasol, podlediadau, golygu fideos, cynnwys y wefan, astudiaethau achos ac adroddiadau, ac yn gweithio gyda gwirfoddolwyr lle bo'n briodol.

Bydd y Rheolwr Cyfathrebu yn cydlynu digwyddiadau sydd yn cael eu trefnu gan y Bartneriaeth yn strategol, ac yn sicrhau eu bod yn cynnig cyfleoedd cryf i rwydweithio ar draws y sector, yn ogystal â gwireddu potensial eu proffil cyhoeddus. Byddant hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i sefydliadau ar draws y sector ar sut i wella eu sgiliau cyfathrebu fel rhan o set fwy eang o gymorth datblygu sydd yn cael ei gynnig gan Hub Cymru Africa.

Bydd cyfrifoldebau penodol y rôl hon yn cynnwys:

1. Darparu Trosolwg Strategol o'r Deunydd Cyfathrebu
    a. Datblygu ac arwain cynlluniau cyfathrebu dwyieithog.
    b. Cefnogi tîm y staff i gyflwyno'r cynlluniau hyn a rhoi hyfforddiant cyfathrebu i aelodau o'r tîm pan fo angen.

2. Cyfathrebu â’r Cyfryngau a’r Cyhoedd
    a. Cryfhau presenoldeb Hub Cymru Africa mewn print ac ar y radio a'r teledu ar gyfer holl weithgareddau HCA
    b. Dod o hyd i straeon 'newyddion da' ar draws y sector, a chynyddu cyhoeddusrwydd ar gyfer unigolion a grwpiau sydd yn rhan o brosiectau undod byd-eang.
    c. Darparu cyngor ar y cyfryngau a chymorth datblygu i sefydliadau o fewn y sector.
    d. Cynrychioli Hub Cymru Africa yn y cyfryngau pan fo angen, gan gynnwys yn y cyfryngau Cymraeg.
    e. Arwain ar gaffael gwasanaethau cyfieithu gyda chyfieithydd allanol HCA, a rheoli’r berthynas yn adeiladol.

3. Cydlynu'r Cyfathrebu ar draws y Sector
    a. Chwarae rhan weithredol mewn cydlynu'r cyfathrebu ar draws y sector, gan sicrhau bod sector undod byd-eang Cymru yn gysylltiedig gyda rhwydweithiau rhanbarthol, a chyda rhwydweithiau ar draws y DU ac Ewrop.
    b. Cefnogi'r cyfathrebu ar gyfer rhwydweithiau anffurfiol ar draws y sector yng Nghymru.

4. Cyfathrebu Mewnol
    a. Rheoli'r seilwaith cyfathrebu ar draws partneriaeth HCA: sicrhau bod ein brandio a’n prif negeseuon undod byd-eang yn glir ac yn gyson â strategaeth y bartneriaeth
    b. Datblygu prif negeseuon a phwyntiau trafod ar faterion polisi perthnasol gyda Phennaeth Hub Cymru Africa.
    c. Cryfhau sut mae ffyrdd cyfathrebu gwahanol bartneriaid yn cysylltu â'i gilydd, a sicrhau bod negeseuon yn glir ac yn cyrraedd y cynulleidfaoedd cywir

5. Cyfathrebu Digwyddiadau
    a. Arwain y cyfathrebu ar gyfer prif ddigwyddiadau, gan gynnwys y Ffair Undod Byd-eang, Cynhadledd Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru, a digwyddiadau thematig eraill sydd yn cael eu trefnu gan HCA
    b. Cryfhau cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio ar draws sectorau rhwng partneriaid y rhaglen, partneriaethau iechyd byd-eang, grwpiau diaspora Affricanaidd, grwpiau Masnach Deg ac eraill yn y sector undod byd-eang
    c. Arwain ar yr elfen farchnata ar gyfer digwyddiadau proffil uchel
    d. Cryfhau'r defnydd o wirfoddolwyr lle bo’n bosibl i gefnogi elfennau o gynlluniau cyfathrebu digwyddiadau

6. Strategaeth y Wefan a Chyfryngau Eraill
   a. Arwain a datblygu gwefan HCA, gan ysgrifennu ac ychwanegu gwybodaeth gyfredol
   b. Sicrhau bod unrhyw negeseuon am Gynllun Grant Cymru ac Affrica Llywodraeth Cymru, ymhlith ffynonellau cyllid eraill, yn glir
   c. Comisiynu nodweddion a chynnwys allweddol ar y wefan pan fo angen, a chydlynu diweddariadau newyddion
   d. Ehangu presenoldeb gweithredol HCA ar y cyfryngau cymdeithasol, a phostio negeseuon rheolaidd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar LinkedIn, Instagram, Facebook ac YouTube
   e. Creu astudiaethau achos, adroddiadau a ffeithluniau o ansawdd uchel ac apelgar
   f. Cryfhau rôl gwirfoddolwyr i gyfrannu at ddatblygu cynnwys ar gyfer y wefan ac ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys diweddaru gwybodaeth fel y bo'n briodol
   g. Cymryd cyfrifoldeb dros y podlediad Cymru, Affrica a'r Byd, a cheisio cael gwesteion diddorol i gymryd rhan

7. Cyfrifoldebau Trawsbynciol (yn cael eu rhannu gyda holl staff HCA)
   a. Sicrhau bod yr holl waith yn cael ei gynllunio a'i gyflawni fel rhan o Strategaeth HCA.
   b. Cyfrannu'n deg ac yn gymesur at weithgareddau a rennir y Bartneriaeth, gan gynnwys digwyddiadau mawr, cyfathrebu a gwaith allgymorth.
   c. Sicrhau lefel dda o gysylltiad gyda gwaith partneriaid eraill: Cymru Masnach Deg, Partneriaethau Iechyd Byd-eang Cymru, SSAP a Cymru Global.
   d. Gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod grwpiau wedi'u hymyleiddio yn gallu cael mynediad at gymorth, hyfforddiant a grantiau.
   e. Adrodd ar gynnydd i'ch rheolwr llinell ac, os gofynnir, yn uniongyrchol i Fwrdd y Bartneriaeth neu i Lywodraeth Cymru.
   f. Recriwtio, rheoli a/neu gefnogi gwirfoddolwyr fel sy'n angenrheidiol i gyflawni'r gwaith.
   g. Sicrhau ein bod yn cyflawni ein cyfrifoldebau diogelu ac yn hyrwyddo arferion gorau ar draws sector Cymru ac Affrica.
   h. Sicrhau bod y rhaglen yn cael ei chyflwyno'n ddwyieithog ac yn cynyddu cyfranogiad siaradwyr Cymraeg, yn unol â'r Cynnig Rhagweithiol sydd wedi cael ei gymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg.
   i. Cyfrannu'r holl ddata Monitro, Gwerthuso a Dysgu perthnasol sy'n ofynnol o fewn y prosiect.
   j. Sicrhau bod cyllid yn cael ei wario ar ddibenion cymeradwy'r rhaglen, a bod pob trafodiad yn cael ei gefnogi gyda gwaith papur ariannol.
   k. Cyflawni dyletswyddau achlysurol eraill fel y'u dirprwyir gan Bennaeth Hub Cymru Africa.

# Manyleb y person

## Hanfodol

- Ymrwymiad i werthoedd ac amcanion Hub Cymru Africa
- Profiad blaenorol o arwain, rheoli a chyflwyno ystod lawn o weithgareddau cyfathrebu
- Y gallu i ddefnyddio'r cyfryngau a sgiliau cyfathrebu i gyfrannu'n sylweddol at nodau strategol

- Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol yn y Gymraeg a'r Saesneg, gan gynnwys y gallu i weithio'n llwyddiannus gyda'r cyfryngau Cymraeg
- Profiad o ddatblygu a gweithredu strategaethau cyfathrebu o fewn fframwaith strategol ehangach
- Profiad o greu amrywiaeth o gynhyrchion cyfathrebu
- Dealltwriaeth o syniadau a themâu datblygu rhyngwladol, gyda ffocws arbennig ar Affrica
- Y gallu i ddatblygu ac addasu negeseuon ar themâu undod byd-eang a datblygu rhyngwladol ar gyfer cynulleidfaoedd cyhoeddus a phobl nad ydynt yn arbenigwyr
- Y gallu i gynllunio gweithgareddau gwaith, adolygu a blaenoriaethu fel sy'n angenrheidiol, i gyflawni safonau uchel a chyrraedd terfynau amser
- Y gallu i ddarparu arweinyddiaeth, cyngor ac arweiniad effeithiol i eraill ar eu gwaith cyfathrebu
- Y gallu i weithio'n effeithiol fel rhan o dîm i hyrwyddo a chyflwyno digwyddiadau llwyddiannus

## Dymunol

- Profiad o weithio gyda sefydliadau'r trydydd sector
- Profiad o gydlynu neu o weithio gyda gwirfoddolwyr
- Dealltwriaeth o undod byd-eang a chyd-destun y sector datblygu rhyngwladol yng Nghymru
- Dealltwriaeth o'r agenda cynhwysiant, gan gynnwys gweithio gyda grwpiau sydd wedi'u hymyleiddio neu eu hileiddio

# Y Broses Ymgeisio

I wneud cais am y rôl hon, dylech gwblhau ffurflen gais a'i hanfon drwy e-bost i humanresources@ssap.org.uk erbyn 23: 59 ar **ddydd Sul, 3 Hydref 2026.**

Sylwch y bydd angen i chi anfon eich CV, a chwblhau ffurflen gais hefyd.

Yn anffodus, nid ydym yn gallu cynnig nawdd ar gyfer y rôl hon. Mae angen i chi gael yr hawl gyfreithiol i weithio yn y DU pan rydych yn dechrau gweithio gyda SSAP.

Yn ogystal, fel rhan o'r cynnig cyflogaeth, byddwn yn gwirio eich geirdaon, a bydd angen i ni gymeradwyo'r rhain.